# Asesiad o anghenion gofal

## TAG UG Uned 2: Cefnogi iechyd, llesiant a gwydnwch yng Nghymru (asesiad di-arholiad)

Bydd asesiad o anghenion gofal fel arfer yn **cynnwys cyfres o gwestiynau**, yn aml ar ffurf trafodaeth. Mae'r asesiad wedi'i gynllunio i **ganfod 'canlyniadau personol' yr unigolyn** (beth yw anghenion yr unigolyn a pha gefnogaeth sydd ei hangen). Mae'r rhain yn cynnwys:

- yr hyn y mae'r unigolyn am ei gyflawni – h.y. ei ganlyniadau personol
- yr hyn sy'n ei atal – h.y. y rhwystrau a'r risgiau
- a oes angen gwybodaeth a chyngor ar yr unigolyn
- pa gymorth arall y mae'r unigolyn yn ei gael – er enghraifft, gan **aelod o'r teulu**
- pa **wasanaethau yn y gymuned** a allai helpu'r unigolyn
- pa ofal a chymorth bydd yn cael eu darparu gan y gwasanaethau cymdeithasol a'u partneriaid
- sut y caiff cynnydd yr unigolyn ei fonitro
- dyddiad adolygiad nesa'r unigolyn.

Os bydd amgylchiadau'r unigolyn yn newid, yna rhaid adolygu'r cynllun gofal a chymorth yn barhaus ac ni ddylid ei gau heb gynnal ailasesiad o amgylchiadau'r unigolyn. Y cyngor, y gwasanaethau iechyd a'r gwasanaethau cymdeithasol lleol fydd yn penderfynu ar y cyd p'un a yw pecyn gofal a chymorth unigolyn yn bodloni canlyniadau llesiant personol cyffredinol yr unigolyn (llesiant emosiynol, cymdeithasol ac economaidd).

## Y sectorau gwahanol sy'n darparu gofal iechyd a gofal cymdeithasol, a gwasanaethau gofal plant yng Nghymru (2.2.3 (a))

1. **Y sector statudol:** gwasanaethau y mae Llywodraeth Cymru yn talu amdanyn nhw ac yn eu darparu. Maen nhw'n cynnwys holl wasanaethau'r GIG, byrddau iechyd, ysbytai, canolfannau iechyd, a gwasanaethau awdurdodau lleol – h.y. gofal cymdeithasol plant, gofal cymdeithasol oedolion ac addysg (ysgolion meithrin, ysgolion cynradd ac ysgolion uwchradd).
2. **Y sector annibynnol/preifat:** gwasanaethau sy'n cael eu rhedeg fel busnesau i wneud elw ac sydd ond yn cael eu hariannu gan unigolion a/neu eu polisïau yswiriant. Maen nhw'n cynnwys cwmnïau preifat a all ddarparu'r canlynol: gofal dydd i blant (crèche/meithrinfa ddydd), gofal iechyd (BUPA a deintyddion), a gofal cymdeithasol (cartrefi preswyl/nyrsio a chynorthwywyr personol). Mae'r sector annibynnol/preifat hefyd yn cynnwys ymarferwyr hunangyflogedig – h.y. gwarchodwyr plant, cynorthwywyr personol a nyrsys preifat.
3. **Y trydydd sector/sector gwirfoddol:** darperir y gwasanaethau hyn gan sefydliadau nid er elw sy'n aml yn elusennau cofrestredig (er enghraifft, Achub y Plant, Gweithredu dros Blant, Mind, Marie Curie, Scope, Y Gymdeithas Strôc), grwpiau cymorth lleol sy'n defnyddio gwirfoddolwyr (cylchoedd chwarae, grwpiau cwnsela a phrofedigaeth) a sefydliadau nid er elw sydd â gweithwyr cyflogedig (Barnardo's, NSPCC, Childline, Macmillan, hosbisau).
4. **Gofal di-dâl/anffurfiol:** caiff y math hwn o ofal ei roi gan bobl sydd am helpu eraill ac ni chânt eu talu fel arfer, fel teulu, ffrindiau, cymdogion a grwpiau crefyddol lleol. Gall y cymorth gynnwys gwarchod plant, siopa, glanhau, casglu presgripsiynau a darparu trafnidiaeth i apwyntiadau.

Gall rhai gwasanaethau gael eu cynnig gan ddarparwyr sy'n gweithio gyda'i gilydd mewn partneriaeth yn rheolaidd. Gall y sector statudol gomisiynu gwasanaethau sector arall i gefnogi deilliannau personol unigolyn. Gellir cael mynediad at y gwasanaethau mewn lleoliadau gwahanol, er enghraifft, gall podiatreg fod ar gael mewn canolfan iechyd neu ysbyty neu yn y cartref. Defnyddir rhai gwasanaethau drwy bob cam bywyd (er enghraifft, canolfannau iechyd, ysbytai ac optegwyr), tra bod gan wasanaethau eraill grwpiau targed yn y gymuned (er enghraifft, mae Dechrau'n Deg yn gweithio gyda phlant rhwng 0–4 oed).